Bywgraffiad o Brif Weithredwr Lifelong Learning UK, David Hunter

David Hunter yw Prif Weithredwr Lifelong Learning UK (LLUK). Yn y gorffennol, bu David yn Brif Weithredwr Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach (FENTO) a Chymdeithas Colegau Gogledd Iwerddon. Bu David yn rhagweithiol wrth weithio tuag at sefydlu Cyngor Sgiliau Sector Dysgu Gydol Oes. Daeth Lifelong Learning UK i rym fel Cyngor Sgiliau Sector (CSS) ar 1 Ionawr 2005. Fe'i sefydlwyd gan gyflogwyr y sector i arwain datblygiad proffesiynol pawb sy'n gweithio ym maes dysgu gydol oes.

Bu David yn rheolwr ym maes addysg bellach, addysg oedolion a chymunedol, a'r sector gwirfoddol. Gwnaed llawer o'i waith yn yr holl feysydd hyn mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth a chynhwysiant cymdeithasol, ac mae ymrwymiad i hyn wedi gyrru ei lwybr gyrfaol.

Yn ogystal, symbylwyd gwaith gwirfoddol David fel cyn-gadeirydd Skill Northern Ireland, a'i ymgysylltiad â'r elusen anabledd The Cedar Foundation, gan ei ymrwymiad i gynhwysiant cymdeithasol.

Mae David yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, yn Gymrawd Cymdeithas yr Athrawon, yn aelod o Sefydliad y Cyfarwyddwyr, ac mae'n aelod o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu a Sefydliad Siartredig y Rheolwyr. Mae'n aelod o'r All Souls Group, Pwyllgor Llywio'r Black Leadership Initiative, Grŵp Cynghori'r Ganolfan Ragoriaeth Arweinyddiaeth (CEL), Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant, Grŵp Sefydlog Gweinidogaethol ar gyfer AB, Pwyllgor Cynghori Allanol y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Genedlaethol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd Oedolion (NRDC), Grŵp Gweithredu Adolygiad Leitch ar gyfer y Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes, Workforce Race Advisory Group a chadeirydd cyfarfodydd Gweithgor Addysg Bellach ar y Cyd/Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes a Grŵp Diwygio Strategol Supply Side ar gyfer y Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes.